

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

DYDD MERCHER, 18 HYDREF 2023

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd A.G. Morgan (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

K.V. Broom

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

T. Davies

A. Evans

A.D. Harries

D. Jones

M.J.A. Lewis

M. James

Hefyd yn bresennol: (Yn y Siambr):

Y Cyngorydd D. Price - Yr Arweinydd

Y Cyngorydd A. Lenny - Aelod Cabinet dros Adnoddau

Y Cyngorydd Linda Davies-Evans - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

N. Evans, Rheolwr Cymorth Busnes;

D. Hockenhull, Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau ;

G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth;

J. Owen, Rheolwr Rhaglen TIC;

A. Machin, Rheolwr Dysgu a Datblygu;

J. Jones, Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol;

G. Jones, Prif Swyddog Digidol;

S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd;

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

L. Rees-Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

C. Reynolds, Cydgysylltydd Busnes a Phrosiectau

R. Hemmingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol

Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.18 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd G. John, K. Madge a P. Hughes

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW
CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR
AGENDA**

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
A. Evans	5 – Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2022/23 6 – Adroddiad Alldro'r Gyllideb	Datganodd y Cyngorydd Evans fuddiant personol sef bod ganddo aelod o'r

	<p>Refeniw 2022-23 7 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2023/24 8 - Adroddiad Chwarterol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodaeth - 1 Ebrill hyd at 30 Mehefin 2023</p>	<p>teulu sy'n gweithio yn Adain Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor. Oherwydd natur y buddiant, dywedodd y Cyngorydd Evans y byddai'n datgan buddiant ac yn gadael y cyfarfod petai'r drafodaeth yn troi at fater yn ymwneud â'r buddiant. Arhosodd y Cyngorydd Evans yn y cyfarfod, cymerodd ran yn y trafodaethau a phleidleisiodd.</p>
--	---	--

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

3. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

4. **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL GRWP GORCHWYL A GORFFEN 2023/24 DOGFEN CYNLLUNIO A CHWMPASU ADOLYGU PERFFORMIAD A DATBLYGIAD Y GANOLFAN GYSWLLT GORFFORAETHOL**

Bu i'r Pwyllgor, ar ôl cytuno, mewn egwyddor, i gynnal adolygiad Gorchwyl a Gorffen o Ganolfan Gyswllt y Cyngor yn ei gyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd ar 27 Medi, dderbyn y Ddogfen Cynllunio a Chwmpasu Ddrafft Gorchwyl a Gorffen ar adolygiad o berfformiad a datblygiad y Ganolfan Gyswllt Gorfforaethol.

Wrth gyflwyno'r ddogfen, pwysleisiodd y Cadeirydd fod hwn yn faes y teimlai'r Pwyllgor yn gryf y byddai'n elwa'n fawr ar adolygiad, gan ei fod yn fodd sylfaenol i'r cyhoedd roi gwybod am broblemau a cheisio gwybodaeth. Felly, wrth ystyried y nodau a'r amcanion a nodir yn y ddogfen, y Pwyllgor fyddai orau i gynnal ymchwil i'r systemau presennol sydd yn eu lle, y perfformiad a chynhyrchu argymhellion i'r Cabinet.

Er mwyn ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen gwleidyddol gytbwys, gofynnodd y Cadeirydd am hyd at 6 enwebiad gan y Pwyllgor. Wrth gydnabod bod yr enwebiadau a ddaeth i law wedi'u pwysoli tuag at Blaid Cymru, cytunodd y Pwyllgor ar yr aelodaeth, yn amodol ar benderfyniad y Cyngor ar aelodaeth pwyllgorau a fyddai'n digwydd yn y Cyngor llawn ar 8 Tachwedd, 2023. Byddai hyn yn rhoi cyfle i aelod o'r Grŵp Llafur ymuno â'r grŵp i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol. Pe bai enwebiad yn dod o'r grŵp Llafur cyn y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd, cytunwyd y byddai'r Cyngorydd Jean Lewis yn rhoi'r gorau iddi.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 4.1 Derbyn y Ddogfen Cynllunio a Chwmpasu ddrafft – Adolygu Perfformiad a Datblygiad y Ganolfan Gyswilt Gorfforaethol;
- 4.2 cymeradwyo nodau a chwmpas gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel y nodir yn y Ddogfen Cynllunio a Chwmpasu;
- 4.3 bod Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Berfformiad a Datblygiad y Ganolfan Gyswilt Gorfforaethol fel a ganlyn:-

	Y CYNGHORYDD	PLAID
1.	Y Cynghorydd Kim Broom	Plaid Cymru
2.	Y Cynghorydd Alex Evans	Plaid Cymru
3.	Y Cynghorydd Terry Davies	Plaid Cymru
4.	Y Cynghorydd Dot Jones	Llafur
5.	Y Cynghorydd Giles Morgan	Annibynnol
6.	Y Cynghorydd Jean Lewis <i>Mae Aelodaeth y Cynghorydd Lewis yn amodol ar dderbyn enwebiad gan y Grŵp Llafur yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 8 Tachwedd 2023</i>	Plaid Cymru

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR SIR GAR AR GYFER 2022-23

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd A. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2022/23 ynghyd ag adroddiadau manwl ar Amcanion Llesiant newydd y Cyngor sy'n dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor sef:

- WBO1 - Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda)
- WBO2 - Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)
- WBO3 - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)
- WBO4 - Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor)

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad hwn yn ofyniad statudol, a thrwy ddefnyddio'r amcanion llesiant i fframio'r hunanasesiad, roedd yn galluogi'r Cyngor i integreiddio gofynion adrodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) mewn un adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am sut yr ymgysylltai'r Cyngor â dinasyddion a rhanddeiliaid ar draws holl swyddogaethau allweddol y Cyngor.

Ymatebwyd i'r sylwadau/arsylwadau fel a ganlyn:

- Rhoddwyd sylw i'r grantiau penodol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru gan eu bod yn cyfateb i'r cyfanswm o 16% y mae'r Cyngor yn ei dderbyn o'r dreth gyngor. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Arweinydd fod y swm a dderbyniodd y Cyngor o dreth y cyngor yn y gwariant cyffredinol yn fach o gymharu â phwysigrwydd y Grant Cynnal Refeniw (RSG) a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd trafodaethau ar y gweill ar lefel Cymru gyfan. Dywedodd yr Arweinydd wrth yr aelodau y byddai'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn ymweld â Sir Gaerfyrddin yn ystod yr wythnos nesaf lle byddai trafodaeth yn cael ei chynnal ynglŷn â sefyllfa bresennol y grantiau a'r posibilrwydd o gydgrynhoi'r Grant Cynnal Refeniw. Byddai gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.
- Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod y Cyngor yn dibynnu ar grantiau i gynnal y gyllideb refeniw.
- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod y gyfradd gasglu annomestig yn 97.97% a oedd ychydig bach yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae ardrethi annomestig yn cael eu cronni ledled Cymru ac felly, byddai unrhyw or-gasgliad neu dan-gasgliad o fewn awdurdod lleol unigol yn mynd i'r gronfa ac yn cael ei rannu ledled Cymru. Mae'r awdurdod wedi'i ddiogelu rhag unrhyw amrywiad o ran ffactorau economaidd lleol.
- Bu i'r Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol, wrth ymateb i ymholiad ynghylch safleoedd adwerthu gwag ac adwerthwyr yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, gadarnhau byddai'n rhaid i'r landlord dalu ardrethi, er bod cyfnod dros dro o 3 mis pan fo'r eiddo'n wag
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch gostyngiad yn y targedau ymateb statudol i gwynion, eglurodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth, y bu cynnydd yn nifer y cwynion a ddaeth i law yr Awdurdod yn ystod yr un cyfnod. Roedd y cwynion a ddaeth i law yn rhai cymhleth ac roedd angen amser i ymchwilio iddynt yn drylwyr. Dywedwyd y byddai Adroddiad Blynyddol manwl ynghylch Cwynion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nesaf.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth fod cyfarwyddeb i Benaethiaid Gwasanaeth gan archwilio mewnlol ynghylch amser ymateb rheolwyr wedi'i weithredu.
- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Rheolwr Cymorth Busnes y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, yn egluro pam y bu cynnydd yn nifer y marwolaethau a gofrestrwyd yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2022/23, gan gynnwys cynnydd mewn achosion lle mae angen i grwner ymyrryd yn y sefyllfa.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

6. ADRODDIAD ALLDRO CYLLIDEB REFENIW 2022/23

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd A. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau Alldro Cyllideb Gorfforaethol 2022/23 yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol. Yn gyffredinol, sefyllfa net yr awdurdod oedd tanwariant o £1,288k.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd A. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol 2023/24 yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol fel yr oeddent ar 30 Mehefin 2023 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/24.

Roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld y byddai gorwariant diwedd blwyddyn o £4,504k ar gyllideb referniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £7,399k ar lefel adrannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2023 1 MEHEFIN 30AIN 2023

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd A. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Chwarterol ynghylch y Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 - 30 Mehefin 2023. Roedd yr adroddiad yn rhestru'r gweithgareddau rheoli'r trysorlys a oedd wedi digwydd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn yn unol â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-2024 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2023.

Nododd y Pwyllgor nad oedd yr Awdurdod wedi torri unrhyw un o'i Ddangosyddion Darbodus yn ystod y cyfnod.

Ymatebwyd i'r sylwadau/arsylwadau a godwyd fel a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at y *WAYield isel* ar gyfer Banc Lloyds. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyfradd y farchnad, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau wrth y Pwyllgor fod y Cyngor wedi ail-fuddsoddi gyda Banc Lloyds ar gyfradd uwch o 6.22%.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad.

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD CWARTER 1 - 2023-24 (01/04/23-30/0623) YN BRIODOL I'R PWYLLGOR CRAFFU HWN

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn cynnwys diweddariad ar y camau a gymerwyd hyd at ddiwedd Chwarter 1 – 2023/24, o'r Camau Gweithredu a'r Mesurau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r amcanion Llesiant.

Ymatebwyd i'r sylwadau/arsylwadau a godwyd fel a ganlyn:-

- ran prentisiaethau, nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar ffyrdd o ail-lansio'r cynllun.
- Cytunodd y Rheolwr Datblygu a Dysgu i ddarparu ffigyrau ar gyfer prentisiaethau ar draws yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

10. COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (PSB) SIR GAR EBRILL 2023

Cafodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2023. Roedd yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fod Pwyllgor Craffu Llywodraeth Leol penodol yn cael ei benodi i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn Sir Gaerfyrddin, penodwyd Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau y Cyngor fel y Pwyllgor Craffu perthnasol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2023.

11. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor yr adroddiad "peidio â chyflwyno" mewn perthynas â chofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y cyfarfod ym mis Gorffennaf a nododd yr esboniad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

12. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 12 Rhagfyr 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 12 Rhagfyr 2023.

13. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIUYD AR 19 GORFFENNAF 2023

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD